

TAITH I WAITH

Mae Taith i Waith wedi lansio gwefan newydd sbon i hyrwyddo'r prosiect ac annog pobl i fanteisio ar y cynnig o addysg neu hyfforddiant i wella eu rhagolygon. Mae'r wefan i'w chael yn Gymraeg ar www.newworkconnections.org.uk/?lang=cy ac mae â chyfoeth o wybodaeth ar hyfforddiant, addysg neu gyfleoedd gwaith yn dibynnu ar eich sefyllfa bersonol chi.

Nod Taith i Waith ydi cynorthwyo pobl sydd, drwy ystod o anfanteision, yn economaidd anweithgar neu'n ddi-waith. Mae'r prosiect yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Sir Ddinbych, Ynys Môn, Conwy, a Gwynedd. Mae'r wefan hefyd yn darparu ar gyfer busnesau a allai fod â diddordeb mewn cefnogi Taith i Waith a datblygu gweithlu sy'n fwy amrywiol. Mae Swyddogion Cynorthwyo Busnes y prosiect ar gael i helpu cyflogwyr i wella enw da eu busnes drwy gynnig cefnogaeth a chymorth mewn meysydd fel Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gan arwain gyda gwella lefelau cyflogaeth ymysg y mwyaf difreintiedig. Gyda thros £20 miliwn wedi ei ddiogelu dros bedair blynedd, yn cynnwys dros £10 miliwn mewn cefnogaeth gan Gronfa Cydgyfeirio Gymdeithasol Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru, gallwn wneud gwahaniaeth.

Mae Taith i Waith Sir Ddinbych yn cynnig cymorth dwys ar gyfer cyfleoedd hyfforddi a dod o hyd i swyddi i bobl sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith, yn cynnwys pobl sy'n:

Wynebu sialensiau sylweddol wrth geisio addysg, cyflogaeth a hyfforddiant
Ag anabledd neu anhawster dysgu
Gydag anghenion iechyd meddwl
Â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar allu i weithio
Ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau
Â chyfrifoldebau gofalu
Byddwn hefyd yn helpu:
Pobl hŷn (dros 50)
Rhieni Unigol
Merched sy'n dychwelyd i'r gwaith
Pobl ifanc sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth
Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

Nod Taith i Waith ydi helpu pobl sy'n wynebu'r anfanteision mwyaf i wella eu cyfleoedd o ffeindio cyflogaeth a darparu cyfleoedd i gynyddu lefelau sgiliau. Rydyn ni am gynorthwyo pobl i chwalo'r rhwystrau y byddan nhw'n eu hwynebu'n ddyddiol. Mae ein dull yn syml; rydyn ni'n sylweddoli nad yw pawb yr un fath felly byddwn yn darparu cymorth anffurfiol, hyblyg, cydlynol yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn: grymuso pobl i gyrraedd eu potensial llawn. Rydyn ni'n annog ac yn cefnogi cyflogwyr i ddarparu mwy o swyddi ar gyfer grwpiau difreintiedig ac mae'r tîm wedi ei leoli yng nghalon y gymuned i alluogi dysgu sy'n seiliedig ar y gymuned mewn amgylchedd anffurfiol.

Os hoffech chi wybod mwy am y gwasanaethau hyn cysylltwch â ni:

Ffôn: 01745 362166

Ffôn testun: (ar gael i bobl sy'n fyddar neu'n cael anhawster clywed): 07879 660021

E-bost: newworkconnections@denbighshire.gov.uk

Ysgrifennwch atom ni: Asiantaeth Datblygu Cymunedol, Uned D, Adeiladau'r Orsaf, Stryd Bodfor, Y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 1AT